# Adroddiad Arholwyr TGAU

Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
TGAU
Haf 2025

© WJEC CBAC Ltd.2025



## Cyflwyniad

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu'r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

### Cefnogaeth bellach

| Mapio | Disgrifiad | Cyswllt |
|---|---|---|
| Dysgu Proffesiynol / DPP | Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig. | https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/ |
| Cyn-bapurau | Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC |
| Gwybodaeth am ffiniau graddau | Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned.<br><br>Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau. | Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk) |

[1] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau | Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Porth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon. | Porth CBAC |
| Adnoddau Ystafell Ddosbarth | Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu. | https://adnoddau.cbac.co.uk/ |
| Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol | Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC. |
| Arholi gyda CBAC. | Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu. | Arholi gyda ni \| CBAC |

© WJEC CBAC Ltd.2025

**Cynnwys** **Tudalen**


Crynodeb gweithredol 5

Uned 1: Twf, Datblygiad a Llesiant Dynol 6

Uned 2: Hybu a Chynnal Iechyd a Llesiant 9

Uned 3: Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn yr 21ain ganrif 13

Uned 4: Hybu a Chefnogi Iechyd a Llesiant er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol 15

Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol 18


© WJEC CBAC Ltd.2025

**Crynodeb Gweithredol**

Ar y cyfan, dangosodd ymgeiswyr TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant Unedau 1 a 3 ddealltwriaeth dda o wybodaeth am y pwnc ac, yn y rhan fwyaf o achosion, defnyddiwyd terminoleg pwnc-benodol i gefnogi eu hymatebion. Mae'n braf gweld gwybodaeth am bwnc yn gwella'n gyson, yn enwedig o fewn rhai meysydd testun fel cyfranogiad gweithredol.

Mae rhywfaint o anghysondeb wrth ddefnyddio berfau gorchmynnol, gyda lleiafrif bach o ymgeiswyr yn colli marciau drwy restru yn hytrach nag esbonio neu drwy beidio â mynd i'r afael â phob rhan o'r cwestiwn. Mae'n bwysig cofio bod rhestru ond yn dangos gwybodaeth sylfaenol, tra bod esbonio yn dangos dealltwriaeth ddyfnach ac yn helpu i gyrraedd y bandiau marciau uwch.

Er mwyn gwella, dylai ymgeiswyr ddarllen pob cwestiwn yn ofalus, amlygu termau allweddol, a sicrhau bod eu hatebion yn cysylltu'n uniongyrchol â'r hyn sy'n cael ei ofyn – yn enwedig mewn cwestiynau marciau uwch sy'n gofyn am ddyfnder a manylder. Mae defnyddio enghreifftiau penodol a datblygu pwyntiau'n llawn yn gallu helpu i gyrraedd y marciau yn y band uchaf.

Mae ymarfer ar gyfer yr arholiad yn rheolaidd, gan ddefnyddio cyn-bapurau a chynlluniau marcio, yn magu hyder, yn gwella rheoli amser, ac yn achosi llai o straen adeg yr arholiad. Mae ffug-arholiadau yn hynod ddefnyddiol i leihau camgymeriadau'n ymwneud â chyfarwyddiadau a gwella techneg arholiad yn gyffredinol.

**Unedau a Asesir yn Fewnol (2 a 4)**

Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r tasgau Asesiad Di-arholiad gael eu llwytho i fyny fel ffeiliau digidol i IAMIS, ac mae'r dull hwn wedi arwain at broses gymedroli mwy hwylus o lawer. Ar y cyfan, llwythodd y rhan fwyaf o ganolfannau nifer addas o ffeiliau i fyny, gan enwi'r ffeiliau'n briodol. Rhaid atgoffa canolfannau bod cynnwys llofnod ymgeiswyr ac aseswyr yn orfodol; mae llofnodion digidol yn ddull addas.

Yn gyffredinol, roedd y gwaith o safon dda, gyda'r gwelliannau a awgrymwyd yn adroddiad yr Uwch Gymedrolwr y llynedd (2024) yn cael eu cymhwyso, a gwelwyd tystiolaeth o gymhwyso meini prawf y fanyleb yn well.

Roedd gwaith llawer o ganolfannau yn dangos dealltwriaeth well o'r tasgau, a chyflwynwyd y gwaith mewn dulliau mwy amrywiol. Amlygodd hyn gryfderau ymgeiswyr ac amrywiaeth ehangach o ddiddordebau. Defnyddiwyd prosesydd geiriau yn bennaf ar gyfer y tasgau, ac roedd hyn yn caniatáu i'r ymgeiswyr gynnwys data ar ffurf siartiau, graffiau a delweddau yn ogystal â chreu deunyddiau a gweithgareddau hybu mwy cynhwysfawr, fel blogiau a fideos.

Cafodd defnydd da ei wneud o gofnodion arsylwi aseswyr neu sylwadau a ychwanegwyd at waith ymgeiswyr, a bu hynny'n gymorth yn ystod y broses gymedroli. Argymhellir canolfannau i gynnwys anodi manwl ar waith ymgeiswyr drwyddi draw a/neu ar daflen cofnodi aseswyr, oherwydd bod hyn yn ddefnyddiol wrth sefydlu cysondeb o fewn a rhwng canolfannau yn ogystal â chynorthwyo'r broses gymedroli.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT**

**TGAU**

**Haf 2025**

**Uned 1: Twf, Datblygiad a Llesiant Dynol**

**Trosolwg o'r Uned**

Cofrestrwyd ymgeiswyr ar gyfer arholiad Uned 1. Braf oedd gweld cynnydd yn ymatebion ymgeiswyr, yn enwedig wrth fynd i'r afael â geiriau gorchymyn drwy gydol y papur. Roedd nifer bach o ymgeiswyr yn colli marciau o hyd drwy beidio â mynd i'r afael â'r geiriau gorchymyn, e.e. ymgeiswyr yn rhestru yn hytrach nag esbonio ac felly'n colli marciau yn yr ymatebion. Fel y gwelwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol, dangosodd ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda wrth ateb cwestiynau AA1 y papur. Collodd rhai ymgeiswyr farciau am beidio ag ateb rhai cwestiynau'n gywir, er enghraifft yng Nghwestiwn 3 lle gofynnwyd iddyn nhw nodi gwasanaeth. Nododd rhai ymgeiswyr rôl swydd, ac felly collwyd marciau yn 3a neu 3b. Roedd diffyg manylder o fewn atebion rai ymgeiswyr mewn ambell gwestiwn penodol. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ystyried y gair gorchymyn a nifer y marciau sydd ar gael wrth ysgrifennu eu hymatebion. Dylai hyn roi gwell syniad iddyn nhw o'r manylder sydd ei angen ar gyfer y cwestiwn maen nhw'n ei ateb. Fodd bynnag, enillodd nifer o ymgeiswyr farciau uchel yn eu hymatebion manwl i gwestiwn 8 a chwestiwn 9(b) yn benodol.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Cw.1 - (a, b, c)**
Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu ennill marciau llawn o fewn y cwestiynau AA1 hyn. Derbyniwyd meddygon am farc yng nghwestiwn 1(b); fodd bynnag, rydym yn annog ymgeiswyr i ddefnyddio'r term cywir, sef meddyg teulu (*GP*).

**Cw.2 - (i, ii, iii, iv)**
Fel yng nghwestiwn 1, roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu ennill marciau yn yr adran hon ac yn gallu nodi manteision ymarfer corff ar gyfer iechyd corfforol, iechyd meddwl, iechyd cymdeithasol ac iechyd emosiynol. Roedd lleiafrif bach wedi drysu rhai o'r meysydd iechyd, gydag ychydig o ymgeiswyr ond yn nodi y byddai'r meysydd yn cael eu gwella, yn hytrach na defnyddio enghreifftiau penodol.

**Cw.3**
Yn y cwestiwn hwn, gofynnwyd i ymgeiswyr nodi gwasanaethau a fyddai'n gallu cefnogi'r unigolion gwahanol, sef Jac sydd â diabetes Math 2 a Jemma sy'n feichiog. Roedd y cwestiwn hwn yn hawdd i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr, ond nododd rhai ymgeiswyr rolau swyddi yn hytrach na gwasanaethau. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn darllen ac yn ateb y cwestiynau'n gywir. Roedd y rheini a oedd yn gallu nodi gwasanaethau, hefyd yn gallu nodi, ar y cyfan, y math o gefnogaeth y byddai'r gwasanaeth yn gallu ei ddarparu i'r unigolion.

**Cw.4**
Roedd ymgeiswyr yn parhau i ddangos dealltwriaeth well o gyfranogiad gweithredol, a braf oedd gweld mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu disgrifio'r manteision mae cyfranogiad gweithredol yn eu rhoi i unigolion. Roedd lleiafrif bach o ymgeiswyr yn dal i gyfeirio at fanteision bod yn fwy gweithgar ar iechyd, ac felly collwyd marciau ar y cwestiwn hwn.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**Cw.5**
Ar gyfer y cwestiwn hwn, gofynnwyd i ymgeiswyr esbonio sut byddai un digwyddiad bywyd annisgwyl, sy'n cael ei enwi, yn gallu cael effaith ar fywyd unigolyn. Roedd rhaid i ymgeiswyr, felly, nodi'r digwyddiad bywyd annisgwyl roedden nhw'n ei esbonio. Er bod y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi gwneud hyn ac wedi rhoi ymateb da, cafwyd ymateb generig gan leiafrif bach o ymgeiswyr ac ni nodwyd y digwyddiad bywyd annisgwyl, a chollwyd marciau oherwydd hynny. Hefyd, defnyddiodd lleiafrif bach o ymgeiswyr enghreifftiau a fyddai'n cael eu hystyried fel digwyddiadau bywyd disgwyliedig, yn hytrach nag annisgwyl. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn gallu gwahaniaethau rhwng y ddau.

**Cw.6 (a)**
Dangosodd nifer o ymgeiswyr rywfaint o ddealltwriaeth o'r 1000 Diwrnod Cyntaf, a rhoddwyd rhai pwyntiau dilys wrth drafod sut byddai'r rhaglen yn gallu cefnogi Branwen a Rhodri. Fodd bynnag, ni wnaeth rhai ymgeiswyr gysylltu eu hymateb â'r gefnogaeth y byddai'r rhaglen yn ei rhoi i'r rhieni o ran rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i'w baban.  Eto, mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn darllen y cwestiwn ac yn deall beth mae'r ymateb yn gofyn amdano. Yn aml, mae brawddeg syml ar y diwedd yn gallu bod yn ddigon i gysylltu'r ateb â'r cwestiwn, gan sicrhau ei fod yn berthnasol.

**Cw.6 (b)**
Derbyniwyd effeithiau cadarnhaol a negyddol ynglŷn â sut gallai dod yn rhieni effeithio ar Branwen a Rhodri. Perfformiodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dda wrth ateb y cwestiwn hwn. Roedd lleiafrif bach o ymgeiswyr wedi cynnwys rhestr yn hytrach na nodi ateb ystyriol. Dylai ymgeiswyr osgoi gwneud hyn er mwyn gallu cyrraedd y marciau yn y bandiau uwch.

**Cw.6 (c)**
Er bod nifer o ymgeiswyr wedi dangos dealltwriaeth glir o'r fenter Dechrau'n Deg, ni wnaeth eraill hynny ac felly nid oedden nhw'n gallu esbonio sut byddai'n gallu cefnogi'r teulu. Cyfeiriodd nifer o ymgeiswyr at ofal plant am ddim, ond ni soniwyd sut byddai hynny'n gallu cefnogi'r teulu. Mae angen i ymgeiswyr wneud yn siŵr eu bod yn cyfeirio at y gair gorchymyn er mwyn ennill marciau yn y bandiau uwch.

**Cw.7 (a, b)**
Dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr ddealltwriaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (*ACEs*) gan ennill o leiaf un allan o ddau farc am y diffiniad. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr hefyd yn gallu amlinellu sut mae esgeuluso yn gallu effeithio ar dwf, datblygiad a llesiant unigolyn. Yr ymgeiswyr a gyfeiriodd at bob un o'r tri maes o fewn y cwestiwn (twf, datblygiad a llesiant) enillodd y marciau uchaf yma.

**Cw.7 (c)**
Perfformiodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dda yn y cwestiwn hwn ac roedden nhw'n gallu rhoi amlinelliad da o sut byddai bod yn fwy gwydn yn gallu helpu Hefin.

**Cw.8 (a)**
Dangosodd nifer o ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o pam mae rhaglenni sgrinio yn ddull pwysig o ymyrryd ac atal. Cyfeiriodd rhai ymgeiswyr at sgrinio'r fron yn unig yn eu hatebion. Er defnyddiwyd sgrinio'r fron fel yr enghraifft, roedd y cwestiwn yn fwy generig ac yn cyfeirio at yr holl raglenni sgrinio. Roedd yr ymgeiswyr a enillodd y marciau uwch yma yn gallu rhoi atebion ehangach drwy gyfeirio at raglenni sgrinio'n gyffredinol.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**Cw.8 (b)**
Er bod nifer o ymgeiswyr wedi gallu rhoi atebion cryf a oedd yn esbonio nodweddion heneiddio yng ngham bywyd Betsi, sef oedolaeth, cyfeiriodd rhai ymgeiswyr hefyd at nodweddion a fyddai'n cael eu gweld fel arfer yn ystod oedolaeth ddiweddarach. Roedd diffyg symudedd, dementia, bod mewn cartref gofal, etc., ymhlith yr enghreifftiau. Er byddai pob un o'r rhain yn bosibl, nid ydynt fel arfer yn cael eu cysylltu ag oedolaeth.

**Cw.9 (a, b)**
Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu enwi canllaw fyddai'n gallu helpu Abbie i wella ei hiechyd corfforol, fel y Canllaw Bwyta'n Dda neu 5 y dydd. Nododd lleiafrif bach 'bwyta'n fwy iach' neu 'gwneud mwy o ymarfer corff' yn unig ac arweiniodd hyn at golli marciau yma. Ar gyfer cwestiwn 9(b), dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr rywfaint o ddealltwriaeth o'r ffyrdd y byddai diffyg ymarfer corff, deiet gwael a bod dros bwysau yn gallu effeithio ar iechyd a llesiant Abbie. Roedd yr ymgeiswyr a gyrhaeddodd y bandiau marciau uwch yn gallu asesu pob maes o fewn y cwestiwn a hefyd yn gallu dod i gasgliadau rhesymegol. E.e. Sut? Beth fyddai'r effaith tymor byr a'r effaith tymor hir? Ac felly?

© WJEC CBAC Ltd.2025

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT**

**TGAU**

**Haf 2025**

**UNED 2: HYBU A CHYNNAL IECHYD A LLESIANT**

**Trosolwg o'r Uned**

Dyma oedd y flwyddyn gyntaf i'r Asesiad Di-arholiad gael ei lwytho i fyny i IAMIS. Roedd y gwaith a gyflwynwyd o safon dda, a gwelwyd gwelliannau pellach ers y llynedd. Mae canolfannau wedi ystyried pwyntiau allweddol adroddiad yr uwch gymedrolwr, a gwelwyd tystiolaeth o'r fanyleb yn cael ei chymhwyso'n well.

Lle y bo'n bosibl, cynghorir canolfannau i leihau nifer y ffeiliau sy'n cael eu llwytho i fyny. Dylid coladu'r tasgau gyda'r daflen cofnod asesu, ac un neu ddwy ffeil i bob tasg gydag enw'r ffeil a manylion yr ymgeisydd wedi'u nodi'n glir.

Dangosodd y rhan fwyaf o ganolfannau ddealltwriaeth ardderchog ac ymdriniaeth fwy amrywiol wrth gyflwyno tasg un a dau, gan dynnu sylw at gryfderau'r ymgeisydd ac amrywiaeth o ddiddordebau. Mae rhai ymgeiswyr yn dal i ddewis yr un cam bywyd ar gyfer y ddwy dasg. Fe'u cynghorir i ddewis camau bywyd gwahanol ar gyfer pob tasg er mwyn cael gafael ar amrywiaeth eang o wybodaeth am y pwnc. Defnyddiwyd prosesu geiriau yn bennaf ar gyfer y tasgau, ac roedd hyn yn caniatáu i'r ymgeiswyr gynnwys siartiau, graffiau a delweddau yn ogystal â chreu deunyddiau a gweithgareddau hybu mwy cynhwysfawr. Eleni, roedd yn wych gweld blogiau a fideos yn cael eu llwytho i fyny fel ymgyrchoedd ar gyfer tasg dau.

Roedd y defnydd o gofnodion arsylwi neu sylwadau'r athro a oedd wedi'u cynnwys yng ngwerthusiad tasg 2, adran (d) o gymorth yn ystod y broses gymedroli. Darparodd y rhan fwyaf o ganolfannau anodiadau ar waith ymgeiswyr a/neu defnyddiwyd cofnodion asesu i ddangos lle roddwyd marciau. Anogir yr arfer hwn gan ei fod yn helpu i hybu cysondeb o fewn canolfannau unigol a hefyd ar draws canolfannau gwahanol.

Gweinyddu – Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd lofnodi eu gwaith, yn ogystal ag aseswr y ganolfan. Rhaid cwblhau'r taflenni cofnod asesu yn llawn, gan gynnwys y marciau ar gyfer pob adran a'r cyfansymiau. Dylid croeswirio popeth cyn llwytho'r cyfan i fyny i IAMIS.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Tasg 1: Darparu gwasanaethau**

**(a) Ymchwilio i'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn lleol ac yn genedlaethol i fodloni anghenion plant, pobl ifanc neu oedolion**

Dangosodd ymgeiswyr amrywiaeth o arddulliau, ac roedd hyn yn caniatáu mwy o ryddid o ran cyflwyno'u gwaith. Rydym yn dal i weld canolfannau'n cyflwyno gwaith ar ffurf tabl, ac er nad yw hyn yn addas i bob tasg, mae'n addas i'r dasg hon, ac mae'n rhoi cyfle i ymgeiswyr fodloni'r amcanion asesu. Dangosodd ymgeiswyr y bandiau uchaf amrywiaeth o anghenion penodol ar draws ystod o grwpiau targed, gan gynnwys llawer iawn o fanylion a gwneud ymchwil helaeth i ymchwilio i ddarpariaethau gwasanaethau. Mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn nodi manylion y ffynhonnell sy'n un o ofynion yr adran hon, gydag ystod amlwg iawn i gyrraedd y bandiau marciau uwch.

Er bod y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi gwella o ran cynnwys manylion ynghylch y corff rheoleiddio, nid oes digon o ddyfnder gan rai ymatebion o hyd ar gyfer y bandiau marciau uwch, e.e. Ydyn nhw'n cadw cofrestriadau gweithwyr? Ydyn nhw'n gyfrifol am arolygiadau? Beth sy'n digwydd os nad yw gwasanaeth yn bodloni'r safonau pan gaiff ei reoleiddio? Darparu dealltwriaeth o sut mae'r rheoleiddio'n digwydd.

**(b) Ymchwilio i rolau swyddi dau weithiwr proffesiynol allweddol**

Fel y flwyddyn ddiwethaf, roedd yr adran hon yn gryfach o lawer, gyda thystiolaeth yn dangos dealltwriaeth well o'r sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen ar gyfer y rolau swyddi hyn. Ni wnaeth rhai ymgeiswyr, fodd bynnag, ddewis rolau a oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaeth neu'r cam bywyd a ddewiswyd. Wedi dweud hynny, roedd yn well na'r llynedd. Mae nifer o ymgeiswyr wedi dangos gwybodaeth gadarn am waith amlasiantaethol, gyda llai o ymgeiswyr nawr yn rhoi disgrifiadau generig, sy'n dangos eu bod yn canolbwyntio'n fwy ar gyfraniad gwaith amlasiantaethol i'w grŵp targed. Mae rhai canolfannau, fodd bynnag, yn dal i roi ymgeiswyr mewn bandiau marciau uwch pan nad ydyn nhw wedi dangos fawr ddim tystiolaeth, os unrhyw dystiolaeth o gwbl, tuag at weithio amlasiantaethol. I gyrraedd y bandiau marciau uwch, mae angen esboniad trylwyr a pherthnasol o sut gall y ddau weithiwr proffesiynol allweddol gyfrannu at weithio amlasiantaethol. Mae nifer o ganolfannau'n dangos gwelliant o ran sut mae gweithwyr proffesiynol allweddol yn gallu datblygu eu gyrfa, gydag ambell un yn rhoi ymatebion ardderchog ac yn nodi dilyniannau penodol o fewn y maes gwaith perthnasol. Mae rhai enghreifftiau o hyd, fel y nodwyd y llynedd, o nodi opsiynau gyrfa i'r ochr.

**(c) Dadansoddi'r dasg**

Mae'r gwaith yn yr adran hon yn parhau i fod yn gryf gyda chanolfannau'n dadansoddi argaeledd gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol allweddol, ac a ydyn nhw'n bodloni anghenion y grŵp targed i safon ardderchog ar y cyfan ai peidio. Mae rhai canolfannau o hyd yn rhoi ymgeiswyr yn y band marciau uchaf, ond gan fod yr adran hon yn asesu ansawdd cyfathrebu'r ymgeisydd, rhaid i ymgeiswyr allu cynhyrchu gwaith heb gamgymeriadau i gyrraedd y bandiau uchaf.

Gwelir tystiolaeth o gwestiynau hybu gan rai ymgeiswyr er mwyn llywio'u hatebion. Dylid cadw mewn cof amodau'r Asesiad Di-arholiad. Ychydig iawn o anodi sydd fel arfer ar waith yr ymgeiswyr sy'n tynnu sylw at faterion yn ymwneud â gramadeg a sillafu, a gallai hyn ei gwneud hi'n anodd i'r aseswr benderfynu ar y bandiau marciau.

© WJEC CBAC Ltd.2025

## Tasg 2: Hybu iechyd

### (a) Dewis testun a grŵp targed

Yn dilyn ymlaen o adroddiad y llynedd, cafwyd atebion da iawn ar y cyfan i'r adran hon a rhoddwyd rhesymau manwl dros ddewis y grŵp a'r testun. Dewisodd ambell ymgeisydd yr un cam bywyd ar gyfer tasg un a thasg dau. Fe'u cynghorir i ddewis camau bywyd gwahanol ar gyfer pob tasg er mwyn cael gafael ar amrywiaeth eang o wybodaeth am y pwnc. Mae hefyd yn bwysig nodi bod angen i ymgeiswyr ddewis eu testun a'u grŵp eu hunain. Dewisodd ychydig o ganolfannau y tasgau a'r grwpiau ar gyfer eu dosbarthiadau – ni chaniateir hyn.

Ar y cyfan, roedd yn dda gweld amrywiaeth fwy o destunau, nid yn unig o fewn canolfannau unigol, ond ar draws y rhan fwyaf o ganolfannau. Roedd yr atebion lle cafwyd data ystadegol i ddangos pwysigrwydd y mater a sut mae'n berthnasol i'r grŵp targed yn dangos bod yr ymgeiswyr wedi deall y dasg oedd o'u blaen. Roedd defnyddio delweddau, siartiau a graffiau yn helpu ymgeiswyr i gyrraedd y band marciau uwch gan eu bod yn ategu'r rhesymau dros ddewis y testun. Ar y cyfan, roedd y cyfiawnhad a roddwyd naill ai'n dda neu'n dda iawn, a gwelwyd tystiolaeth glir bod yr ymgeiswyr wedi rhoi cryn ystyriaeth i hyn.

### (b) Ymchwilio i'r testun a ddewiswyd gan ddefnyddio amrediad o adnoddau

Gwnaeth y rhan fwyaf o ymgeiswyr roi cynnig da ar yr adran hon unwaith eto. Roedd yr ymatebion yn dangos dealltwriaeth o ganllawiau a mentrau perthnasol y llywodraeth. Roedd y rhan fwyaf o ganolfannau'n dangos tystiolaeth glir bod gwaith ymchwil estynedig wedi digwydd. Gwelwyd gwelliant mawr eleni o ran dylanwadau cadarnhaol a negyddol ar iechyd a llesiant y grŵp targed a ddewiswyd; dim ond rhai oedd wedi rhoi dylanwadau cadarnhaol a negyddol generig ar y grŵp targed oedd ddim yn berthnasol i'r testun a ddewiswyd. Dylai pob adran o'r Asesiad Di-arholiad fod yn ystyrlon ac yn bwrpasol i ategu'r deunydd hyrwyddo mae'r ymgeiswyr yn ei gynhyrchu. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn deall pwrpas ymchwilio i'r dylanwadau cadarnhaol a negyddol ar y grŵp a ddewiswyd a'r testun fel bod hynny wedyn yn gallu rhoi sail i ystyried dulliau ymgyrchu yn adrannau (c) ac (ch). Dangosodd nifer o ymgeiswyr amrywiaeth eang o ffynonellau yn dda a oedd yn caniatáu iddyn nhw gyrraedd y bandiau marciau uwch.

### (c) Asesu deunyddiau hybu iechyd sy'n bodoli eisoes

Perfformiodd yr ymgeiswyr yn dda yn yr adran hon. Roedden nhw wedi gallu ymchwilio i fwy o ddeunyddiau hybu iechyd sy'n bodoli. Fodd bynnag, nid oedd amcanion a disgrifiadau rhai o'r darnau hybu a ddewiswyd gan rai ymgeiswyr yn cynnwys digon o ddyfnder i gyrraedd y bandiau marciau uwch. Mae angen mynd i'r afael â'r holl feini prawf asesu perthnasol i gyrraedd y band marciau uwch, yn ogystal â dangos ystyriaeth dda iawn a dyfarniad rhesymegol am eu haddasrwydd. Mae angen i ymgeiswyr ddadansoddi: Beth yw nod y deunydd? Pa mor addas ydyw i'r grŵp targed? I ba raddau mae ar gael i'r grŵp targed? Pa ffynonellau cymorth sydd ar gael i'r grŵp targed? Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith a gynhyrchwyd yn berthnasol i'r grŵp targed a'r testun a ddewiswyd, ac roedd hyn o gymorth i gefnogi'r ystyriaethau a wnaed yn adran (ch).

© WJEC CBAC Ltd.2025

### (d) Cynllunio a chreu ymgyrch neu weithgaredd hybu iechyd

Eleni, roedd yn wych i weld dulliau eraill fel blogiau a fideos yn cael eu llwytho i fyny ar gyfer yr ymgyrchoedd. Rhaid nodi nad yw pob math o ffeil yn gydnaws, felly dylid gwirio bod y mathau o ffeiliau yn addas cyn eu llwytho i fyny. Rhoddodd ymgeiswyr gynnig gwell o lawer eleni ar ystyried y dulliau a'r technegau i wneud ymgyrch effeithiol, gan gefnogi eu dewisiadau â chyfiawnhad mwy manwl o ran pam y bydden nhw'n addas neu beidio. Wedi dweud hynny, dewisodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr gyflwyniadau PowerPoint a thaflenni, ond roedd eu hansawdd yn well a nodwyd manylion eleni. Roedd gemau bwrdd hefyd yn ddewis poblogaidd ymhlith ymgeiswyr. Mae defnyddio tystiolaeth ffotograffig a datganiadau tystion wedi gweithio'n dda eleni er mwyn helpu i gynorthwyo'r broses gymedroli a sicrhau bod marciau wedi'u rhoi yn briodol. Mae llawer mwy o ymgeiswyr wedi ystyried y dulliau adborth eleni, gan roi rhesymau dros y dulliau a ddefnyddiwyd. Dangosodd ymgeiswyr dystiolaeth dda o agwedd gynllunio'r dasg, ac mae defnyddio bwrdd cynllunio yn cefnogi ymgeiswyr uchel ac isel eu cyflawniad i nodi costau, yr adnoddau sydd eu hangen ac amserlenni ar gyfer cwblhau rhannau penodol o'r dasg, wedi bod yn llwyddiannus.

### (e) Dadansoddi a gwerthuso'r dasg

Mae'r ymatebion i'r dasg hon yn gwella pob blwyddyn, gydag ymgeiswyr yn dadansoddi'r adborth a gafwyd yn dda iawn. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar ansawdd eu gwerthuso. Mae'n dda gweld amrywiaeth o'r dulliau adborth a ddefnyddiwyd i ddangos eu canlyniadau. Eto, fel yn adran (c) tasg un, mae rhai materion o hyd yn ymwneud â rhoi band marc 4 i atebion sy'n cynnwys gwallau sillafu a gramadeg. Mae rhai canolfannau'n defnyddio cwestiynau i arwain ymgeiswyr wrth werthuso. Er bod hyn yn cefnogi ymgeiswyr bandiau is, mae'n well os yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gwahaniaethu yn hytrach na thechneg gyffredinol ar gyfer y garfan gyfan.

**Sylwadau am ddulliau marcio mewnol**

- Mae angen parhau i anodi gwaith a/neu y cofnod asesu i roi sylwadau am ble rhoddwyd marciau i ymgeiswyr, gan fod hyn yn cefnogi'r broses gymedroli.
- Mae traws-gymedroli o fewn canolfannau yn gam hanfodol i sicrhau cywirdeb marcio a dogfennaeth gysylltiedig, fel cadarnhau bod y marciau wedi'u hadio'n gywir a bod y llofnodion sydd eu hangen wedi'u nodi. Mae'r broses hon yn helpu i leihau gwallau clerigol wrth fewnbynnu data i IAMIS.
- Dylid sicrhau bod ffynonellau'n cael eu cynnwys ym mhob rhan o'r dasg lle mae hynny'n ofynnol.
- Mae angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod nhw'n cwblhau'r gwaith o fewn y 15 awr a ganiateir.
- Mae defnyddio datganiadau tystion wedi bod o gymorth mawr i'r ymgeiswyr mewn rhai tasgau hyrwyddo, gan alluogi i farciau gael eu rhoi'n gywir, gan fod tystiolaeth ategol ar gael.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT**

**TGAU**

**Haf 2025**

**Uned 3: Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn yr 21ain Ganrif**

## Trosolwg o'r Uned

Fel y gwelwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol, roedd ymgeiswyr yn gallu tynnu oddi ar wybodaeth am y pwnc wrth ateb cwestiynau AA1. Sgoriodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn uchel ar gwestiynau 1 a 2 yn benodol. Ar y cyfan, dangosodd llawer o ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r geiriau gorchymyn. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu ehangu ar eu hatebion gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiol destunau; fodd bynnag, ni wnaeth lleiafrif bach gysylltu eu hatebion â'r cwestiwn. Roedd cwestiwn 6(c) yn enghraifft o hyn. Er bod nifer o ymgeiswyr wedi dangos dealltwriaeth dda o effaith gordewdra plant, ni chysylltodd rhai eu hymateb ag effaith darparu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy yng Nghymru, a golygodd hyn eu bod yn colli marciau. Er ei bod yn braf gweld ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth am y pwnc, mae angen iddyn nhw sicrhau eu bod nhw'n ateb y cwestiwn yn llawn ar gyfer y bandiau marciau uwch hefyd.
Mewn rhai cwestiynau, roedd diffyg manylder gan rai ymgeiswyr. Gallen nhw fod wedi ehangu ar eu hatebion er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uwch. Ar y cyfan, dangosodd ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r pwnc ar draws amrywiaeth eang o destunau.

## Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

### Cw.1, Cw.2
Yn gyffredinol, roedd y cwestiynau AA1 hyn yn gymharol hawdd i'r ymgeiswyr, gyda lleiafrif bach yn rhoi tic yn y blychau anghywir ar gyfer cwestiwn 1(a).

### Cw.3
Dangosodd y mwyafrif o ymgeiswyr rywfaint o ddealltwriaeth ynghylch Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru, a thrafodwyd llawer o feysydd allweddol y cynllun gan gynnwys hybu bwyta'n iach ac ymarfer corff mewn ysgolion. Er y gwelwyd rhai trafodaethau da, gallai ymgeiswyr ar adegau fod wedi ehangu ar eu hatebion ymhellach, a chysylltu'r ateb â'r effaith mae hyn yn ei chael ar iechyd a llesiant pobl ifanc yng Nghymru.

### Cw.4 (a, b, c)
Roedd cwestiwn 4 yn canolbwyntio ar gydraddoldeb a chynhwysiant. Roedd yn amlwg bod nifer o ymgeiswyr yn gyfforddus â'r maes testun hwn. Cafwyd trafodaeth dda iawn gan nifer o ymgeiswyr ynghylch sut byddai gweithle newydd John yn gallu hybu cydraddoldeb a chynhwysiant iddo, ac yn yr un modd cafwyd llawer o esboniadau da ynghylch sut mae'r ddeddf cydraddoldeb yn gallu cefnogi unigolion gydag anableddau. Roedd rhywfaint o ailadrodd rhwng atebion, fodd bynnag roedd hynny i'w ddisgwyl oherwydd y maes pwnc yn rhannau (a) a (b). Roedd bron pob ymgeisydd yn gallu nodi tair o nodweddion sy'n cael eu gwarchod gan y Ddeddf Cydraddoldeb.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**Cw.5**
Roedd y cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar esgeuluso. Unwaith eto, roedd ymgeiswyr yn gallu dangos gwybodaeth dda am y pwnc. Roedd bron pob ymgeisydd yn gallu rhoi ymatebion ar arwyddion posibl o esgeuluso mewn plant, ac roedd nifer yn deall sut dylai athrawes Cara ddelio ag achos lle mae amheuaeth o esgeuluso plentyn. Cafwyd atebion sylfaenol gan leiafrif o ymgeiswyr. Roedd angen ehangu ar yr atebion hyn er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uwch. Roedd cwestiwn 5(c) yn gofyn i ymgeiswyr ddisgrifio'r effaith byddai esgeuluso yn ystod plentyndod yn gallu ei chael ar iechyd a llesiant unigolyn drwy gydol ei gylchred bywyd. Unwaith eto, cafwyd sawl ateb cryf yma ac roedd hyn yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r pwnc. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu enwi o leiaf un ddeddfwriaeth neu bolisi cyfredol i ddiogelu unigolion, a hefyd yn gallu esbonio pwrpasau allweddol y ddeddfwriaeth/polisi.

**Cw.6 (a, b)**
Roedd y cwestiynau AA1 hyn yn hawdd i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr, gyda bron pob ymgeisydd yn gallu nodi gwybodaeth o'r graff ar y papur yn llwyddiannus. Roedd cwestiwn 6(c) yn fwy o her i rai ymgeiswyr. Er ei bod yn amlwg bod ganddyn nhw wybodaeth dda am y pwnc o ran effaith gordewdra, ni wnaethon nhw drafod yr effaith y gallai gordewdra ei chael yn ystod plentyndod ar ddarparu gofal iechyd cynaliadwy yng Nghymru. Felly, collwyd marciau am beidio â mynd i'r afael â'r cwestiwn yn gywir.

**Cw.7 (a, b)**
Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu nodi un ddeddfwriaeth gyfredol neu bolisi cyfredol ar gyfer yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, ond cafodd lleiafrif bach drafferth esbonio sut mae'r ddeddfwriaeth neu'r polisi yn cydnabod ac yn cefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Er y cafwyd rhywfaint o esbonio, roedd yn ailadroddus ar adegau.

**Cw.8**
Profi gwybodaeth a dealltwriaeth ymgeiswyr o radicaleiddio oedd cwestiwn 8. Roedd yn amlwg bod naill ai ganddyn nhw wybodaeth a dealltwriaeth dda o hyn neu ddim gwybodaeth o gwbl. Aeth y rheini a oedd yn deall y term ‘radicaleiddio’ ymlaen i roi esboniad da iawn ynghylch pam gallai rhai unigolion wynebu mwy o risg o gael eu radicaleiddio, gyda'r rhan fwyaf yn cyfeirio at unigolion sy'n agored i niwed.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT**

**TGAU**

**Haf 2025**

**Uned 4: Hybu a Chefnogi Iechyd a Llesiant er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol**

**Trosolwg o'r Uned**

Roedd y gwaith a gynhyrchwyd eleni o safon uchel ac roedd y rhan fwyaf o ganolfannau wedi cwblhau'r dogfennau dilysu ac wedi cyflwyno eu samplau mewn da bryd. Ymhlith y gwelliannau o'r llynedd mae dangos tystiolaeth o'r ffynonellau a ddefnyddiwyd, a glynu'n well at y fanyleb a'r bandiau marcio drwy gydol y broses asesu. Eleni, gwelwyd amrywiaeth o weithgareddau gan ymgeiswyr a oedd yn fwy ystyriol ac yn addas i leoliadau gofal, er i ni beidio â gweld tystiolaeth o'r gweithgareddau ar ffurf ffotograffau a ffurflenni adborth gan rai ymgeiswyr. Mae hyn yn gyfraniad da i gynorthwyo'r broses gymedroli.

**Sylwadau am dasgau/cwestiynau yn ymwneud â pherfformiad ymgeiswyr/bodloni meini prawf asesu**

**Tasg: Gweithgaredd i fodloni angen**

**(a) Ymchwilio i'r ffordd mae gwahanol fathau o ofal yn bodloni anghenion penodol grŵp targed a ddewiswyd**

Rydym wedi gweld gwelliant cyson dros y blynyddoedd diwethaf wrth i ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r dasg, gan ddarparu ymchwiliadau manwl yn rhan o'r grŵp targed a ddewiswyd. Disgrifiwyd yn glir sut gellid darparu gofal cyfannol, gan gynnwys anghenion corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol y grŵp targed a ddewiswyd. Eto, fel y llynedd, gwelwyd ychydig welliant o ran deall gofal person-ganolog. Mae angen dangos dealltwriaeth ragorol er mwyn gallu cyrraedd y band marciau uwch. Mae rhai aseswyr yn dal i anodi gwaith â'r geiriau 'gofal person-ganolog' hyd yn oed pan nad oes tystiolaeth o hyn i'w weld yng ngwaith yr ymgeiswyr. Gwelwyd gwelliant o ran cynnwys tystiolaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau sydd wedi caniatáu ymgeiswyr i gyrraedd y bandiau marciau uwch.

**(b) Dadansoddi'r ffordd mae tueddiadau lleol a chenedlaethol, demograffeg a mentrau'r llywodraeth yn effeithio ar ddarparu gofal ar gyfer y grŵp targed a ddewiswyd**

Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth glir o'r dasg, ac roedd llai o ymgeiswyr yn cyfeirio at dueddiadau mewn gwledydd eraill fel UDA. Roedd hynny'n braf i'w weld. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr yn dal i gyfeirio at ddata Lloegr sy'n amherthnasol i Gymru a mentrau Cymru. Er mwyn ymateb yn gywir i'r dasg a chyrraedd y bandiau marciau uwch, rhaid i ddata fod yn berthnasol. Mae cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o fentrau perthnasol a chanllawiau wedi'u nodi'n glir o hyd, ac mae yna fanylion am sut maen nhw'n cysylltu ag iechyd a llesiant y grŵp targed a ddewiswyd. Mae defnyddio fformat tabl i gyflwyno gwaith yn gyffredin o hyd, ond mae hyn wedi cyfyngu ar allu rhai ymgeiswyr i gyrraedd y band marciau uwch ar gyfer yr adran hon. Mae'r dull yn addas i ymgeiswyr llai galluog ond nid yw'n annog ymgeiswyr i ehangu ar eu dadansoddiad a'u gwerthusiad o ddata yn llawn. Mae cynnwys gwybodaeth am ffynonellau wedi gwella hyd yn oed yn fwy ymhlith y rhan fwyaf o ganolfannau yn yr adran hon.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**(c) Ymchwilio i weithgareddau ystyrlon i fodloni angen penodol y grŵp targed a ddewiswyd**

Dangosodd samplau ychydig o ganolfannau bod yr holl ymgeiswyr wedi dewis ymchwilio i'r un gweithgareddau, yn hytrach nag ymgeiswyr yn dewis eu gweithgareddau eu hunain. Gan fod yr Asesiad Di-arholiad yn annibynnol, ni ddylid annog hyn. Fodd bynnag, eleni, gwelwyd gan sawl ymgeisydd ambell opsiwn diddorol o ran gweithgareddau yr ymchwiliwyd iddyn nhw. Dangosodd ymgeiswyr ymwybyddiaeth gadarn o sut mae'r gweithgareddau gwahanol yn cysylltu ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dangoswyd gwybodaeth dda am brif bwrpas tasgau a sut roedden nhw'n cefnogi anghenion gofal corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol (*PIES*) y grŵp targed. Gwelwyd llai o ymgeiswyr yn defnyddio fformat tabl i gyflwyno gwaith yr adran hon o gymharu â'r llynedd, ac roedd hyn yn cefnogi ymgeiswyr i ysgrifennu mwy o fanylion ac felly'n eu caniatáu i gyrraedd y bandiau marciau uwch. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth glir o bwrpas y gweithgareddau a ddewiswyd ar gyfer y grŵp targed.

**(d) Cynllunio a chreu gweithgaredd ystyrlon er mwyn bodloni angen penodol y grŵp targed a ddewiswyd ac sy'n helpu i hybu hunan-hunaniaeth, hunan-werth ac ymdeimlad o sicrwydd neu wydnwch**

Dewiswyd llawer o weithgareddau addas; roedd pobi yn ddewis poblogaidd eto eleni. Roedd samplau rhai canolfannau'n dangos bod y rhan fwyaf o'r garfan wedi dewis gwneud yr un gweithgaredd beth bynnag oedd eu grŵp targed. Ar y cyfan, roedd y dewis o leoliad gan y rhan fwyaf o ganolfannau lle'r oedd y gweithgareddau'n digwydd yn addas, ond roedd yn amlwg nad oedd rhai canolfannau wedi cadw at yr amgylchedd lleoliad gofal. Mae'n amlwg bod rhai canolfannau wedi ceisio annog gweithgareddau mewn lleoliadau priodol megis cartrefi gofal preswyl; cafwyd tystiolaeth ffotograffig o hyn. Ni wnaeth rhai ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o gwblhau'r gweithgareddau a nodwyd. Mae hyn yn heriol wrth gymedroli er mwyn gweld ble mae'r marciau wedi'u rhoi. Dyma bwrpas yr asesiad ac felly dylai pob canolfan gynhyrchu tystiolaeth o'r gweithgareddau sy'n digwydd mewn lleoliad gofal sy'n berthnasol i'w grŵp targed. Mae llunio datganiadau tystion wedi cefnogi'r broses gymedroli. Gwelwyd gwelliant o ran sut mae iechyd a diogelwch yn cael ei asesu, ond mae'n dal i fod yn sylfaenol yn achos rhai canolfannau. Mae rhai ymgeiswyr yn dal i gael marciau bandiau uchel heb ddim neu brin ddim tystiolaeth o gynllunio iechyd a diogelwch. Mae angen i ganolfannau sicrhau eu bod nhw'n glynu at y fanyleb a'r bandiau marciau. I gyrraedd y bandiau marciau uwch mae angen cynllunio'n drylwyr ac yn effeithiol, ac mae angen dangos hyn yn glir. Nid yw gwaith llawer o ymgeiswyr yn rhoi digon o sylw i amrywiaeth o strategaethau, technegau a dulliau er mwyn gallu cael adborth priodol, sy'n dangos mai un dull cyffredin yn unig a ddefnyddiwyd gan y mwyafrif o ymgeiswyr eleni.

**(e) Dadansoddi a gwerthuso'r dasg**

Cyflawnwyd yr adran hon yn dda gan nifer o ymgeiswyr eleni, ac mae hynny'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dasg. Defnyddiwyd amrywiaeth o fformatau i ddangos canlyniadau gan gynnwys graffiau, siartiau cylch a thablau ac mae'r ymgeiswyr wedi dadansoddi'r canlyniadau a ddangoswyd. Mae tystiolaeth o sut mae ymgeiswyr yn cymhwyso'r adborth hwn yn eu gwerthusiad wedi'i wneud yn dda unwaith eto eleni. Mae rhai ymgeiswyr sydd yn cyrraedd y bandiau marciau is yn unig wedi'i chael hi'n anodd ychwanegu manylder a dyfnder at yr adran hon, gan nodi cryfderau a gwendidau sy'n dangos ychydig neu ddim ystyriaeth o'r data a gafwyd o'r adborth. Mae'r rhan fwyaf o sylwadau'r aseswyr yn dangos hyn yn y marciau a roddwyd. Nid oedd rhai ymgeiswyr yn llwyddiannus wrth nodi awgrymiadau realistig ac addas ar gyfer gwella. Mae angen disgrifio'n glir a chyfiawnhau'n llawn er mwyn cyrraedd y band marciau uwch. Caiff yr adran hon ei marcio yn seiliedig ar gywirdeb sillafu, gramadeg ac atalnodi; braf oedd gweld y rhan fwyaf o farciau canolfannau yn glynu at hyn.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**Sylwadau am ddulliau marcio mewnol**

- Sicrhewch fod ymgeiswyr ac athrawon yn llofnodi ac yn dyddio'r datganiad. Nodwch fod dilysu gwaith ymgeiswyr yn orfodol.
- I sicrhau marcio cywir, sicrhewch fod y canllawiau marcio a'r fanyleb sydd ar gael ar wefan CBAC yn cael eu defnyddio i sicrhau bod y bandiau marciau cywir yn cael eu dyfarnu.
- Mae angen cynnwys ffynonellau tystiolaeth yn glir ar gyfer pob tasg, ac mae anodi lle mae marciau wedi'u dyfarnu naill ai ar y clawr blaen neu ar waith yr ymgeiswyr o gymorth mawr i'r broses gymedroli.
- Mae datganiadau tystion gan aseswyr a thystiolaeth ffotograffig o gymorth wrth sicrhau bod ymgeiswyr wedi cwblhau eu gweithgareddau.
- Rhaid defnyddio lleoliadau gofal; lleoliadau addysg yw ysgolion ac ni allant gael eu defnyddio yn lle lleoliadau gofal.

© WJEC CBAC Ltd.2025

## Eich cefnogi chi

### Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 02922 404 264
E-bost: HSCandCC@wjec.co.uk
Tudalen pwnc y cymhwyster: Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Cysylltu â ni | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

### Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: Hyfforddiant a Digwyddiadau i Ddod | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

### Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda thros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Ltd.2025

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.2025